WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mawrth 2011

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru | Cyf: 162A2011

# Arolygiad Arbennig: Ailarolygiad o Lywodraethu Corfforaethol

## Cyngor Sir Ynys Môn

Nid yw ymyrraeth Gweinidogion Cymru yn 2009 wedi llwyddo i sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi adfer mewn modd cynaliadwy o'i hanes hir o drefniadau llywodraethu gwan, ac mae angen ymyrraeth gadarnach.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol | 5 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn hanes hir o beidio â chael ei redeg yn briodol | 7 |
| Ni fu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â chanfyddiadau Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 yn gynaliadwy | 9 |
| Tanseiliwyd cynnydd addawol o ran ymdrin ag ymddygiad amhriodol yn ddifrifol gan ddigwyddiadau diweddar | 11 |
| Ar ôl cyfnod o gynnydd, mae gwrthdaro yn cael effaith andwyol unwaith eto sy'n peryglu'r ddarpariaeth o wasanaethau | 14 |
| Mae Cynllun Corfforaethol 2010-11 yn gam bras ymlaen o ran egluro cyfeiriad y Cyngor, ond mae'r digwyddiadau diweddar wedi tynnu sylw pawb sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun | 16 |
| Mae'r Cyngor wedi cymryd camau bras i ymdrin â materion corfforaethol mewn ffordd fwy cyson, ond nid yw'r newidiadau wedi'u hymgorffori hyd yma | 17 |
| Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella ei fframwaith atebolrwydd, ond dengys digwyddiadau diweddar nad yw'r camau hyn wedi newid y diwylliant sylfaenol | 17 |
| Nid yw'r camau cadarnhaol a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion 2009 wedi atal problemau'r gorffennol rhag codi eto | 18 |
| Er gwaethaf gwaith gwerthfawr gan y Bwrdd Adfer a'r Rheolwr Gyfarwyddwr dros Dro, aflwyddiannus fu’r ymyrraeth yn y pen draw ac mae angen ymyrraeth gadarnach i wella'r rhagolygon o ran adfer | 20 |
| **Atodiadau** | |
| Canfyddiadau ac argymhellion Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 | 22 |

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn:

- Alan Morris (Partner Ymgysylltu)
- Huw Lloyd Jones (Arweinydd Asesiad Gwella)
- John Roberts (Cyd-lynydd Asesiad Gwella)
- Cllr John Kent (Asesydd Cymheiriad)
- Ena Lloyd
- Nigel Griffiths
- Helen Pugh

## Statws yr adroddiad hwn

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol ag adran 22 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewn perthynas ag arolygiad arbennig o dan adran 21 o'r Mesur hwnnw.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall Cyngor Sir Ynys Môn yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Crynodeb

1. Ym mis Chwefror 2011, gofynnodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal ailarolygiad o Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn dilyn yr Arolygiad o Lywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn 2009. Felly mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal arolygiad arbennig gan arfer ei swyddogaethau o dan adran 21 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).
2. Gofynnodd y Gweinidog i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad brys o'r sefyllfa yn y Cyngor. Gofynnodd am i'r asesiad gynnwys asesiad o gynnydd y Cyngor tuag at fynd i'r afael â chanfyddiadau adroddiad Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 (adroddiad 2009) a photensial y Cyngor i fynd i'r afael â'r canfyddiadau hynny yn llawn, yn derfynol ac yn gynaliadwy erbyn mis Awst 2011.
3. Daeth Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 i'r casgliad nad oedd y Cyngor wedi cael ei redeg yn briodol ers amser hir, ers ei sefydlu yn 1996 hyd at adeg yr arolygiad. Cafodd hyn effaith andwyol ar y ffordd y cyflawnwyd swyddogaethau'r Cyngor gan olygu ei fod mewn sefyllfa wael i ymateb i heriau'r dyfodol.
4. Roedd y dyfarniad hwn yn seiliedig ar gyfres o gasgliadau, fel y nodir ar dudalen gynnwys adroddiad 2009, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Mae adroddiad llawn 2009 ar gael ar ein gwefan yn: http://www.wao.gov.uk/cymraeg/reportsandpublications/423_695.asp
5. Yn ogystal â gwneud nifer o argymhellion i'r Cyngor, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Gweinidogion Cymru ymyrryd ym materion y Cyngor o dan adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn a chyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol gyfarwyddyd i'r Cyngor. O dan y cyfarwyddyd, penododd y Gweinidog Reolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, a rhoddodd gyfarwyddyd i'r Cyngor gydweithio â Bwrdd Adfer a sefydlwyd i oruchwylio'r broses o weithredu argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Penodwyd y bwrdd tan fis Awst 2011, oni bai bod y cyfarwyddyd i'r Cyngor yn cael ei ymestyn neu ei gwtogi, ac mae wedi cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Gweinidog.
6. Yn dilyn yr adroddiad diweddaraf gan y Bwrdd Adfer, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig ar 16 Chwefror 2011 yn mynegi pryderon mawr ynghylch cynnydd y Cyngor hyd yma a'i ragolygon ar gyfer adferiad cynaliadwy. Dywedodd y byddai'n ystyried pa gamau pellach y dylai eu cymryd ar ôl i adroddiad ailarolygiad yr Archwilydd Cyffredinol ddod i law.

7. Mae'r ailarolygiad hwn yn adolygu cynnydd y Cyngor yn erbyn casgliadau ac argymhellion adroddiad 2009 ac yn ystyried effaith ymyrraeth Weinidogol ar drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Cynhaliwyd yr arolygiad dros bedwar diwrnod yn ystod y cyfnod 23 i 28 Chwefror 2011. Rydym yn cydnabod gwaith staff y Cyngor wrth wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer ein gwaith, a pharodrwydd uwch swyddogion a chynghorwyr i newid eu cynlluniau ar fyr rybudd er mwyn cyfarfod â thîm yr arolygiad.

8. Daethom i'r casgliad nad yw ymyrraeth Gweinidogion Cymru yn 2009 wedi llwyddo i sicrhau bod y Cyngor wedi adfer mewn modd cynaliadwy o'i hanes hir o lywodraethu gwan, a bod angen ymyrraeth gadarnach.

9. Heb ymyrraeth o'r fath, rydym o'r farn bod rhagolygon y Cyngor yn wael o ran gwella'n llawn ac mewn modd cynaliadwy erbyn mis Awst 2011, a bod ei ragolygon o wneud hynny erbyn mis Mai 2012 yn ansicr.

## Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol

10. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau fy arolygiad arbennig o dan adran 21 o'r Mesur. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i mi grybwyll unrhyw fater y credaf, o ganlyniad i'r arolygiad, sy'n golygu bod y Cyngor yn methu â chydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur (gwella llywodraeth leol), ac, yn unol â hynny, mae'r adroddiad hwn yn crybwyll materion o'r fath. Gan fy mod wedi cyflwyno adroddiadau ar faterion o'r fath, mae'r Mesur hefyd yn fy ngalluogi i argymell bod Gweinidogion Cymru yn rhoi cymorth i'r Cyngor o dan adran 28 o'r Mesur a'u bod yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

11. Ar sail fy asesiad o'r tebygolrwydd y bydd y Cyngor yn adfer mewn modd cynaliadwy o'r sefyllfa y cyflwynais adroddiad arni ym mis Gorffennaf 2009, rwyf o'r farn fod y Cyngor yn methu â chydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Felly rwyf wedi penderfynu **argymell** bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddyd i'r Cyngor o dan adran 29 o'r Mesur er mwyn cyfarwyddo:

    i. yr awdurdod i gydymffurfio â Rhan 1 o'r Mesur;

    ii. bod swyddogaethau gweithredol yr awdurdod yn cael eu harfer gan gomisiynwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru nes y bydd Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol cwtogi'r cyfarwyddyd;

    iii. y dylai Gweinidogion Cymru arfer y swyddogaeth o ddynodi pennaeth y gwasanaeth cyflogedig, ac y dylai'r swyddogaethau o benodi swyddog monitro neu swyddog Adran 151, pe bai'r swyddi hyn yn dod yn wag, gael eu harfer gan y comisiynwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru tra pery'r cyfarwyddyd.

12. Rwyf hefyd yn **argymell** bod Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r awdurdod i ddatblygu a gweithredu strategaeth sy'n hybu adnewyddu democrataidd, a bod Gweinidogion Cymru yn rhoi cymorth i'r awdurdod o dan adran 28 o'r Mesur er mwyn ceisio sicrhau'r adnewyddu o'r fath. Wrth wneud hynny, rwyf hefyd yn **argymell** bod Gweinidogion Cymru yn gwneud cais i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i adolygu ei gynigion a gyhoeddwyd yn 2010 i sicrhau bod y newidiadau a gynigiwyd yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r angen am adnewyddu democrataidd yn Ynys Môn o ran nifer y cynghorwyr a chyflwyno wardiau aml-aelod. Os nad yw'n bosibl cwblhau a gweithredu'r adolygiad hwn erbyn mis Mai 2012, **argymhellaf** y dylai Gweinidogion ystyried defnyddio pwerau o dan adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i ohirio etholiadau'r Cyngor tan 2013.

13. Yn olaf, **argymhellaf** y dylai Gweinidogion Cymru ystyried cyfarwyddo'r awdurdod i gynnal refferendwm sy'n ceisio barn etholwyr Ynys Môn ar newid model llywodraethu'r awdurdod i fodel Maer a Chabinet a Etholir yn Uniongyrchol, fel y nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.

## Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn hanes hir o beidio â chael ei redeg yn briodol

14. Daeth adroddiad 2009 i'r casgliad fod gan y Cyngor hanes hir o ymddygiad amhriodol a gwrthdaro ac nad yw wedi cael ei redeg yn briodol. Mae natur barhaus a chyson y problemau hyn yn gosod cyd-destun pwysig ar gyfer sefyllfa bresennol y Cyngor, yn enwedig gan fod nifer o gynghorwyr amlwg wedi dal swyddi pwysig yn y Cyngor drwy gydol y cyfnod hwn. Rhaid i asesiad o ragolygon y Cyngor o wella mewn modd cynaliadwy ystyried ei hanes, felly ceir crynodeb o hyn eto yn yr adroddiad hwn.

15. Gellir olrhain yr hanes o wrthdaro ac ymddygiad amhriodol mor bell yn ôl â'r adeg y sefydlwyd y Cyngor yn 1996, a chyn hynny i ragflaenydd y Cyngor, sef Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn.

16. Cyhoeddwyd dau adroddiad er budd y cyhoedd gan yr Archwilydd Dosbarth yn 1998 yn sgîl nifer o honiadau o lygredd ac ymddygiad amhriodol, yn ymwneud â thir ac eiddo, contractau, grantiau, rhoddion a lletygarwch. Roedd yr adroddiadau yn feirniadol o safonau ymddygiad ar lefel cynghorwyr a swyddogion. Arweiniodd yr adroddiadau hyn at newidiadau o ran personél allweddol, a chymerwyd camau cyfreithiol a chamau disgyblu yn erbyn lleiafrif bach o gynghorwyr a swyddogion. Fodd bynnag, ni lwyddodd hyn i roi terfyn ar y problemau.

17. Rhwng 1998 a 2001, lluniodd Michael Farmer CF dri adroddiad yn ymwneud â gwrthdaro a safonau ymddygiad o fewn y Cyngor. Yn ei drydydd adroddiad, sef yr un terfynol, nododd, 'Mae Llywodraeth Leol yn seiliedig ar bartneriaeth: partneriaeth sy'n seiliedig ar gydymddiriedaeth rhwng yr etholwyr, aelodau a swyddogion. Ar Ynys Môn, partneriaeth fregus fu honno yn y gorffennol agos.'

18. Er gwaethaf argymhellion adroddiadau Farmer, roedd gwrthdaro rhwng aelodau ac ymddygiad aelodau yn parhau i fod yn broblem. Arweiniodd hyn at ymyrraeth bersonol yn 2001 gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol i gynghori ar ddosbarthu cadeiryddion pwyllgorau craffu.

19. Nododd Adolygiad Cymheiriaid[1] yn 2001 lawer o wendidau sylweddol o ran arweinyddiaeth, strwythurau democrataidd a rheoli, cyfathrebu a rheoli perfformiad y Cyngor. Cydnabu'r adroddiad hefyd awydd cryf ymhlith y rhan fwyaf o gynghorwyr a swyddogion i symud ymlaen i gyfeiriad newydd gydag amcanion corfforaethol newydd. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad: 'Os yw'r awdurdod am oroesi yn yr hirdymor, bydd rhaid i Aelodau ddeall eu cyfrifoldebau i'r gymuned a symud ymlaen o'r gorffennol.' Awgryma digwyddiadau'r blynyddoedd dilynol nad yw'r wers hon wedi'i dysgu, ac mae yr un mor wir ag y bu 10 mlynedd yn ôl.

20. Nododd y Llythyr Blynyddol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2004 gan archwilwyr y Cyngor: '...rhaid i'r Cyngor hefyd barhau i ymdrechu i newid diwylliant y sefydliad. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen atgyfnerthu cydymddiriedaeth a pharch rhwng swyddogion ac aelodau a mabwysiadu ymagwedd heriol a chadarnhaol a fydd yn sicrhau bod gwelliannau mewnol yn dod yn rhan hanfodol o'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd.... Gwnaeth y problemau a wynebwyd gan y Cyngor ar ddiwedd y 1990au hi'n anodd i staff ac aelodau ganolbwyntio ar wella gwasanaethau a chawsant effaith niweidiol ar enw da'r Cyngor, yn lleol ac yn genedlaethol.'

21. Nododd y Llythyr Blynyddol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2005 y canlynol: 'Mae cyhoeddusrwydd anffafriol yn ymwneud ag ymddygiad aelodau etholedig yn parhau i dynnu sylw aelodau a swyddogion i ffwrdd o waith arall. Os yw delwedd allanol y Cyngor i gael ei gwella, rhaid i aelodau a swyddogion ddangos eu bod yn gallu gweithio gyda'i gilydd i ganolbwyntio eu sylw ar gyflawni gwasanaethau effeithlon o safon uchel i bobl Ynys Môn.'

22. Parhawyd â'r thema honno yn y Llythyr Blynyddol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2007, a nododd y canlynol, 'Gwrthdaro rhwng aelodau sy'n achosi'r pryder mwyaf i reoleiddwyr y Cyngor ar hyn o bryd, gan ei fod yn tueddu i olygu nad yw aelodau na swyddogion yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r risgiau uchel eraill ac amcanion y Cyngor. At hynny, mae'r cyhoeddusrwydd negyddol a grëir gan y gwrthdaro hwn yn effeithio ar enw da'r Cyngor gyda'r etholwyr, ei reoleiddwyr, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad.'

23. Daeth y materion i benllanw yn y Llythyr Blynyddol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Ionawr 2009 a argymhellodd y dylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad o lywodraethu corfforaethol y Cyngor o dan adran 10A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, oherwydd pryderon bod anawsterau o ran y cydberthnasau gwaith rhwng rhai aelodau gweithredol a rhai uwch swyddogion yn cael effaith andwyol ar y Cyngor a'i allu i gyflawni'r ddyletswydd gwerth gorau gyffredinol.

---

[1] Ym mis Tachwedd 2001, gwahoddwyd yr Asiantaeth Gwella a Datblygu gan y Cyngor i gynnal Adolygiad Cymheiriaid. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad hwn ym mis Chwefror 2002.

24. Nododd adroddiad 2009 fod amlygu problemau gwrthdaro ac ymddygiad amhriodol dro ar ôl tro wedi methu â sicrhau gwelliant. Er gwaethaf ymdrechion rheolwr gyfarwyddwyr olynol, gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac ymgynghorwyr allanol, i leihau'r gwrthdaro a gwella ymddygiad, ni ddatryswyd y problemau ac roeddent yn parhau i danseilio gwaith y Cyngor ac effeithio ar y ffordd yr oedd yn arfer ei swyddogaethau. Ar adegau mae ymateb y Cyngor i adolygiadau ac ymyriadau allanol amrywiol wedi arwain at gyfnod o edifeirwch, ond yn fuan dychwelwyd at yr ymddygiad blaenorol.

25. Ar ôl clywed canfyddiadau ein harolygiad yn 2009, roedd llawer o gynghorwyr yn cydnabod ac yn derbyn ein casgliadau. Dywedodd llawer hefyd ei fod bellach yn amser rhoi gwahaniaethau yn y gorffennol i'r neilltu ac i bawb gyd-dynnu er budd y Cyngor a phobl Ynys Môn. Ers hynny, rydym wedi gweld rhai arwyddion o ymdrechion i wneud hyn, ond rydym hefyd wedi gweld tystiolaeth bod rhai cynghorwyr wedi dychwelyd i'w hymddygiad blaenorol, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

## Ni fu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â chanfyddiadau Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 yn gynaliadwy

26. Mae ein hasesiad o gynnydd y Cyngor ers Ymyrraeth Weinidogol 2009 yn seiliedig ar y canlynol:

- y casgliadau perthnasol a geir yn ein Hasesiad Corfforaethol, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2010, a'n Hadroddiad Gwella Blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011[2];
- canfyddiadau ein hailarolygiad diweddar, yn dilyn cais y Gweinidog.

27. Prif gasgliad ein hadroddiad Asesu Corfforaethol oedd bod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i Ymyrraeth Weinidogol ond bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i weithredu cynlluniau ac yna ymgorffori'r broses o foderneiddio trefniadau corfforaethol y Cyngor a sicrhau cynaliadwyedd gwelliannau. Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, a ddechreuodd ar ei waith ym mis Hydref 2009, yn dilyn ei benodiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd, wedi gwneud nifer o newidiadau angenrheidiol, yn enwedig mewn perthynas â'r ffordd y mae cynghorwyr yn gweithredu. Nodwyd gennym fod llawer o'r sylfeini sydd eu hangen i fynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog ar waith.

---

[2] Mae ein Hasesiad Corfforaethol a'n Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer Cyngor Ynys Môn ar gael yn: http://www.wao.gov.uk/cymraeg/reportsandpublications/423_695.asp

28. Gwnaethom ddiweddaru ein Hasesiad Corfforaethol yn Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cynnydd pellach, yn bennaf mewn perthynas â phrosesau rheoli a phrosesau busnes y Cyngor. Yn ogystal nodwyd datblygiadau addawol o ran trefniadau craffu'r Cyngor. Fel yn y gorffennol, roedd ein hasesiad o ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd gan neu ar ran y Cyngor yn gadarnhaol.

29. Fodd bynnag, mae ein Hasesiad Corfforaethol a'n Hadroddiad Gwella Blynyddol yn amau cynaliadwyedd gwelliant ac adferiad y Cyngor. Ar y ddau achlysur, roedd ein hamheuon yn ymwneud yn bennaf â'r ansefydlogrwydd gwleidyddol o fewn y Cyngor. Canolbwyntiodd ein harolygiad diweddar yn bennaf ar effaith yr ansefydlogrwydd gwleidyddol diweddaraf sydd wedi effeithio ar y Cyngor ers mis Ionawr 2011, a'r ffactorau a achosodd yr ansefydlogrwydd hwnnw. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn ddechrau mis Mawrth 2011, nid yw'r ansefydlogrwydd hwn wedi'i ddatrys hyd yma.

30. Mae llawer o ffactorau a digwyddiadau wedi cyfrannu at y cyfnod diweddaraf hwn o ansefydlogrwydd. Rydym yn disgrifio dau ddigwyddiad allweddol isod a byddwn yn cyfeirio atynt mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn:

- Ym mis Mehefin 2010, ymrannodd y grŵp gwleidyddol mwyaf yn y Cyngor (sef y Grŵp Annibynnol Gwreiddiol) yn ddau grŵp, gyda dim ond pedwar o'i aelodau'n parhau'n deyrngar i'r Arweinydd. Sefydlodd yr Arweinydd grŵp newydd, Llais i Fôn. Yna sefydlodd Llais i Fôn gynghrair o 20 o aelodau, ar sail Telerau Ymgysylltu manwl, gyda grŵp bach arall o gynghorwyr annibynnol (Menai), Plaid Cymru a'r grŵp Llafur. Roedd hyn yn gadael y Grŵp Annibynnol Gwreiddiol, grŵp annibynnol bach arall (Môn Ymlaen) a phum cynghorydd heb ymlyniad i ffurfio'r wrthblaid, sydd hefyd yn cynnwys 20 o gynghorwyr.
- Ym mis Ionawr 2011, gweithredodd rhai o'r arweinwyr grŵp o fewn y gynghrair, gyda chefnogaeth arweinwyr grŵp eraill o'r wrthblaid, i ddisodli'r Arweinydd a ffurfio gweinyddiaeth newydd. Er na ddisodlwyd yr Arweinydd bryd hynny, cyhoeddodd y byddai'n rhoi'r gorau i'w swydd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2011. Wedi hynny collodd y ddau arweinydd grŵp o'r gynghrair eu portffolios o fewn y Pwyllgor Gwaith. Arweiniodd cyhoeddiad yr arweinydd at gyfres o gyd-drafodaethau hir yn cynnwys, ar adegau amrywiol, bob un o'r pum arweinydd grŵp presennol a rhai cynghorwyr eraill. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn ddechrau mis Mawrth 2011, nid yw'r sefyllfa wedi'i datrys hyd yma ac mae'r cyd-drafodaethau yn parhau.

## Tanseiliwyd cynnydd addawol o ran ymdrin ag ymddygiad amhriodol yn ddifrifol gan ddigwyddiadau diweddar

31. Cyn Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009, bu methiant difrifol yn y gydberthynas waith rhwng y Pwyllgor Gwaith bryd hynny a'r uwch dîm rheoli. Nodwyd gennym yn Asesiad Corfforaethol 2010 fod y berthynas waith rhwng y Pwyllgor Gwaith ac uwch reolwyr wedi'i hadfer, ac mae'r sefyllfa hon yn parhau o hyd. Hyd yn oed yn ystod digwyddiadau dechrau 2011, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi parhau â'i waith ac, er enghraifft, wedi cytuno ar gyllideb a'i hargymell i'w chymeradwyo gan y Cyngor.

32. Nodwyd gennym hefyd fod ymddygiad cynghorwyr mewn cyfarfodydd wedi gwella, gyda llai o elyniaeth bersonol na chynt. Nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro yn gywir ddigon fod diffyg disgyblaeth grŵp yn ffactor allweddol o ran problemau'r Cyngor yn y gorffennol. Mynnodd y dylai arweinwyr grŵp dderbyn cyfrifoldeb am ymddygiad eu haelodau, ac y dylent weithredu'n gadarn pan fo angen. Nodwyd gennym fod gweithrediadau arweinwyr grŵp wedi cyflwyno elfen angenrheidiol o hunan-reoleiddio i'r ffordd y cynhelir busnes y Cyngor. Cafwyd cytundeb hefyd o ran dyrannu cadeiryddiaethau pwyllgorau. Roeddem o'r farn fod gan y cytundeb hwn y potensial i leihau'r diwylliant 'trechaf treisied' a oedd wedi tueddu i ymyleiddio grwpiau'r wrthblaid yn y gorffennol, ac a gyfrannodd at y newidiadau mynych mewn teyrngarwch gwleidyddol er mwyn ennill grym.

33. Fod bynnag, bu'n rhaid i ni roi rhybudd hefyd. Nodwyd gennym fod y tensiynau rhwng cynghorwyr yn parhau i ddod i'r amlwg, ac roedd y tensiynau hyn yn tanseilio ein hyder yng ngallu'r Cyngor i adfer mewn modd cynaliadwy.

34. Ar y cyfan, ymdriniwyd yn gadarn â phroblemau. Er enghraifft, diarddelodd yr Arweinydd ddau gynghorydd o'i grŵp oherwydd achosion honedig difrifol o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â thanseilio uwch swyddogion ac, yn enwedig, y Swyddog Monitro. Yn unol â phenderfyniad y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro i hyrwyddo disgyblaeth grŵp gadarnach, cefnogwyd yr Arweinydd gan bob arweinydd grŵp arall drwy gytuno i beidio â derbyn y cynghorwyr a gafodd eu diarddel yn aelodau o'u grwpiau ac wedi hynny rhoddodd y Cyngor wybod i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am ymddygiad y cynghorwyr. Nid yw'r Ombwdsmon wedi cwblhau ei ymchwiliadau hyd yma.

35. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg fod rhai o aelodau grŵp yr arweinydd yn parhau i gefnogi'r cynghorwyr a ddiarddelwyd. Roedd hyn yn ffactor allweddol ym mhenderfyniad yr Arweinydd i greu'r grŵp newydd Llais i Fôn ac i greu'r gynghrair ym mis Mehefin 2010 (gweler paragraff 30). Nodwyd gennym fod y gynghrair yn fregus, yn enwedig gan ei bod ond yn cynnwys hanner y Cyngor.

36. Roedd y Telerau Ymgysylltu ar gyfer y gynghrair yn ddadleuol. Gyda chefnogaeth gadarn y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, nododd y gynghrair mai ei hegwyddor allweddol yw ei dymuniad i leihau'r math o ymddygiad sydd wedi llesteirio cynnydd y Cyngor yn y gorffennol. Mae'r telerau ymgysylltu'n canolbwyntio'n gryf ar y gofyniad i'w aelodau roi pob problem hanesyddol i'r neilltu ac i 'ynysu'r sawl sydd wedi rhwystro cynnydd yn rheolaidd a, thrwy eu gweithredodd, sydd wedi gwrthod derbyn ffyrdd newydd o weithio'. Roedd Paragraffau 6, 8 a 9, yn benodol, wedi'u geirio'n gadarn:

- roedd paragraff 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl a oedd wedi llofnodi'r Telerau Ymgysylltu i, 'gymryd camau ar y cyd i 'enwi a chywilyddio' unrhyw un sy'n atal yr adferiad';
- roedd paragraff 8 yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r gynghrair gondemnio'n gadarn ac yn gyhoeddus y ddau gynghorydd a ddiarddelwyd yn gynharach o grŵp yr Arweinydd mewn datganiad yn cefnogi safiad y Cyngor o ran rhoi gwybod i'r Ombwdsmon amdanynt;
- roedd paragraff 9 yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r gynghrair fanteisio ar unrhyw gyfle a phob cyfle i ddatgelu ac ymyleiddio'r rhai a nodwyd ym mharagraffau 4 a 6 o'r Telerau Ymgysylltu.

37. Er mai un ddogfen a luniwyd, roedd dau ddiben gwahanol i'r Telerau Ymgysylltu. Yn gyntaf, yn gywir ddigon, roedd ymgais i gadarnhau bod y Cyngor yn condemnio unrhyw aelodau a oedd yn tanseilio swyddogion. Yn ail, nod y Telerau Ymgysylltu oedd ymyleiddio'r cynghorwyr hynny nad oeddent yn cefnogi adferiad y Cyngor. Ni lwyddodd y Telerau Ymgysylltu i gyflawni'r ddau ddiben yn llawn. Roedd rhai aelodau o grŵp yr wrthblaid yn parhau i fod yn deyrngar i'r cynghorwyr a enwyd yn y ddogfen, ac roedd eraill yn cefnogi adferiad y Cyngor ond roeddent yn teimlo bod condemnio'r ddau gynghorydd yn gyhoeddus cyn i'r Ombwdsmon gwblhau ei ymchwiliad yn groes i'w cysyniad o gyfiawnder naturiol. Roedd aelodau eraill o'r wrthblaid o'r farn y byddai ymuno â grŵp newydd o gynghorwyr annibynnol - roedd pedwar grŵp o'r fath yn sgîl sefydlu Llais i Fôn - yn dangos y math o wleidydda a fu'n bla ar y Cyngor yn y gorffennol, ac felly roeddent wedi dewis i barhau'n deyrngar i'r grŵp roeddent wedi ymuno ag ef yn y lle cyntaf.

38. Roedd ymddygiad aelodau yn siambr y Cyngor wedi gwella, ac roedd staff Swyddfa Archwilio Cymru a/neu aelodau'r Bwrdd Adfer yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd trefnus a chynhyrchiol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon wedi gwaethygu dros y misoedd diwethaf. Cafwyd achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â rheolau sefydlog yng nghyfarfodydd y Cyngor, a waethygwyd gan gadeiryddiaeth wan, ac achosion lle mae'r Cyngor wedi treulio gormod o amser yn trafod pwyntiau cymharol ddibwys ar draul materion llawer mwy strategol. Mae llawer o'r cynghorwyr yn aelodau ward ymrwymedig sy'n llawn bwriadau da, ond nid oes digon ohonynt yn fodlon lleisio barn yn erbyn yr aelodau mwy profiadol a dylanwadol sy'n tueddu i ddominyddu trafodion. Dywedodd rhai aelodau wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi'u llesteirio rhag dechrau dadl neu her wleidyddol ddilys oherwydd eu bod yn ofni y cânt eu cyhuddo o atal adferiad y Cyngor. O ganlyniad i hyn, mae dadleuon ar faterion pwysig yn aml yn fyr a heb her ddigonol.

39. Ceisio grym drwy'r broses ddemocrataidd yw nod pob gwleidydd uchelgeisiol. Fodd bynnag, mae'r nod hwn ond yn ddilys pan gaiff ei arfer er mwyn gweithredu cyfres glir o bolisïau ac egwyddorion. O fewn y Cyngor, nid yw'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau gwleidyddol amrywiol, p'un a ydynt yn grwpiau annibynnol neu'n cynrychioli pleidiau gwleidyddol cenedlaethol, yn seiliedig ar bolisi. Ni chyfeiriodd unrhyw un y cyfwelwyd â hwy yn ystod yr arolygiad at amcanion presennol y Cyngor, fel y'u nodwyd yn ei Gynllun Corfforaethol, nac at unrhyw newid arfaethedig i'r amcanion hyn.

40. Dehonglwn o'r diffyg gwahaniaethau o ran polisi bod o leiaf rhai o'r arweinwyr grŵp sy'n parhau i ymgiprys am rym yn dilyn yr ymgais ddiweddar i ddisodli'r Arweinydd wedi eu cymell gan rym ei hun a'r manteision a ddaw yn ei sgîl, yn hytrach na chan egwyddor. Mae cymhelliant o'r fath yn methu'r prawf anhunanoldeb, sef y gyntaf o Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus yr Arglwydd Nolan.

41. Er ei fod yn wleidyddol amhrofiadol, mae'r Arweinydd wedi cydymffurfio ag egwyddor yn gyson ers 2009. Gyda chymorth ac arweiniad y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, mae'r Arweinydd wedi gwneud penderfyniadau anodd, ar draul ei boblogrwydd ei hun ar adegau. Fodd bynnag, mae arweinyddiaeth ond yn effeithiol pan fydd eraill yn dilyn. Dywedodd llawer o'r bobl y siaradwyd â hwy yn ystod yr arolygiad, yn gynghorwyr a swyddogion, fod dull arwain yr Arweinydd yn adlewyrchu ei ddiffyg profiad. Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi rhagweld yn ystod hydref 2010 efallai na fyddai'r Arweinydd yn parhau yn ei rôl ar ôl cyfarfod y Cyngor ym mis Mai 2011. Roedd wedi cyflogi ymgynghorydd i hwyluso proses raddol a threfnus o drosglwyddo grym, fel y byddai arweinydd newydd o'r gynghrair yn barod i gymryd yr awenau. Yn anffodus, nid oedd yn bosibl cyflawni'r gwaith hwn oherwydd y tywydd gwael ar ddiwedd 2010.

42. Yn hytrach, cafwyd yr ymgais i ddisodli'r weinyddiaeth sydd mewn grym, ymgais a ddisgrifiwyd gennym ym mharagraff 30. Yn ein barn ni, mae gweithredoedd yr arweinwyr grŵp o fewn y gynghrair, sef cynllwynio gydag eraill y tu allan i'r gynghrair yn dangos diffyg ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau, fel arweinwyr grŵp ac fel aelodau o'r gynghrair. Os oedd aelodau'r grwpiau hyn yn gytûn o ran ei hanfodlonrwydd ag arweinyddiaeth y gynghrair, dylent fod wedi trafod hynny o fewn y gynghrair ac yna, os nad oedd yn bosibl datrys y mater, dylent fod wedi ymwrthod â'r gynghrair. Er ei bod yn debygol y byddai gweithred o'r fath wedi dymchwel y gynghrair, byddai wedi gwneud hynny o ganlyniad i broses ddemocrataidd briodol. Yn hytrach, mae arweinwyr y grwpiau yn parhau i drafod ag eraill i gynllunio'r weinyddiaeth nesaf a phenderfynu pa aelodau fydd yn cael y swyddi Gweithredol â'r cyflogau uchaf, er eu bod wedi'u cynrychioli o hyd ar y Pwyllgor Gwaith presennol.

## Ar ôl cyfnod o gynnydd, mae gwrthdaro yn cael effaith andwyol unwaith eto sy'n peryglu'r ddarpariaeth o wasanaethau

43. Mae'r ffaith fod y Pwyllgor Gwaith ac uwch reolwyr wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd ers 2009 wedi lleihau effaith fewnol y gwrthdaro a'r ymddygiad amhriodol. Fodd bynnag, mae newidiadau mynych o ran aelodau'r Pwyllgor Gwaith a phwyllgorau craffu wedi arafu cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r agenda heriol y mae wedi'i phennu iddo'i hun.

44. Mae'r digwyddiadau diweddar wedi cael goblygiadau niweidiol sy'n fygythiad difrifol i allu'r Cyngor i barhau i wella ei wasanaethau. Yn benodol, mae natur hirfaith y cyd-drafodaethau i benderfynu pwy fydd yn olynu'r weinyddiaeth bresennol yn effeithio ar enw da a hygrededd y Cyngor gyda'i bartneriaid.

45. Canlyniad mwyaf dirnadwy'r niwed hwn i enw da'r Cyngor yw bod Cyngor Gwynedd wedi atal ei gefnogaeth i astudiaeth gwmpasu ar gydweithredu ar raddfa fawr rhwng y ddau awdurdod oherwydd yr ansicrwydd ynghylch arweinyddiaeth Ynys Môn. Mae gan brosiect o'r fath y potensial i sicrhau gwasanaethau cadarnach ac arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y ddau gyngor, a gallai fod yn esiampl i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

46. Mae'r ansefydlogrwydd a'r ansicrwydd wedi cael effaith wael ar forâl y staff hefyd. Dywedodd rheolwyr eu bod eisoes wedi sylwi ar lai o ymrwymiad ymhlith staff i wneud ymdrech ychwanegol, a bod staff yn teimlo cywilydd i gyfaddef eu bod yn gweithio i'r Cyngor wrth fynd i ddigwyddiadau allanol sy'n cynnwys cydweithwyr o gynghorau eraill. Yn sgîl dyfalu mewnol ac allanol di-fudd y gallai'r Gweinidog gyfarwyddo'r Cyngor i uno â Chyngor Gwynedd, mae staff Cyngor Ynys Môn wedi mynegi yn gyhoeddus eu bod wedi colli hyder yn ymddygiad aelodau etholedig.

47. Nodwyd gennym uchod yn yr adroddiad hwn nad yw gwahaniaethau o ran polisi nac ideoleg rhwng y grwpiau gwleidyddol wedi cael fawr ddim dylanwad ar y cyd-drafodaethau hirfaith i ffurfio gweinyddiaeth newydd. Mae'r cyd-drafodaethau hyn, ar adegau gwahanol, wedi cynnig cyfuniadau gwahanol o bob un o'r pum grŵp gwleidyddol yn cymryd rhan mewn clymblaid newydd a fyddai'n rheoli unwaith i'r Arweinydd roi'r gorau i'w swydd. Cyhoeddwyd manylion dau o'r 'atebion' a gynigiwyd yn sgîl y cyd-drafodaethau yn y wasg, er eu bod wedi chwalu'n fuan wedyn.

48. Y ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at ddiffyg llwyddiant y cyd-drafodaethau yw:

- y ffaith bod un arweinydd grŵp yn mynnu y dylai ef chwarae rôl arweiniol o fewn unrhyw weinyddiaeth newydd a gefnogir gan ei grŵp;
- y ffaith bod rhai grwpiau, ar sail egwyddor, yn gwrthod gweithio gydag eraill;
- cyngor clir y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro i arweinwyr grŵp, os yw'r weinyddiaeth newydd am gael hyder y cyhoedd a hyder Gweinidogol, na ddylai'r nifer cynyddol o gynghorwyr sydd wedi dangos diffyg ystyriaeth i lywodraethu da gael eu gwobrwyo drwy gael swyddi cyfrifol o fewn y weinyddiaeth newydd;
- dyfalu di-fudd o ran pa gyfuniadau a allai sbarduno ymyrraeth bellach gan y Gweinidog ai peidio.

49. Rydym wedi cyfeirio eisoes at y ffaith bod paragraff 6 o'r Telerau Ymgysylltu ar gyfer cynghrair mis Mehefin 2010 wedi cyflwyno'r arfer o 'enwi a chywilyddio' cynghorwyr unigol y tybir eu bod wedi atal yr adferiad. Daeth yr arfer hwn o enwi unigolion yn fwy cyffredin dros yr wythnosau diwethaf, o fewn y Cyngor ac yn gyhoeddus. O ganlyniad, mae pob clymblaid sy'n rhifyddol ddichonadwy a gynigwyd ers mis Ionawr 2011 wedi cynnwys rhai aelodau ag iddynt hanes amheus o ran eu hymrwymiad i lywodraethu da.

50. Rydym yn cydnabod y rhwystredigaeth eang bod dulliau mwy cynhwysfawr megis hyfforddiant a datblygu wedi methu â gwella ymddygiad. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod yr arfer o 'enwi a chywilyddio' wedi bod yn ddi-fudd yn y pen draw. Mae'n arwain at rai sy'n teimlo eu bod wedi cael cam, sydd, yn eu tro, yn denu cydymdeimlwyr. At hynny, mae'n meithrin diwylliant ymrannol lle ceir canfyddiad nad yw swyddogion penodol yn niwtral mwyach. Hon oedd y sefyllfa roedd y Cyngor yn ei hwynebu yn 2008, ac ni ddylai dychwelyd at hynny.

51. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro mewn sefyllfa unigryw; er ei fod wedi'i gyflogi gan y Cyngor, mae ganddo gefnogaeth Weinidogol o ganlyniad i ymyrraeth 2009. Rydym yn dadlau yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn nad oedd natur y gefnogaeth hon wedi'i diffinio'n ddigon clir ar y cychwyn. Fodd bynnag, mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi defnyddio'r sylwadau a wnaed gan y Gweinidog mewn araith i gynghorwyr Ynys Môn ac mewn llythyrau cyhoeddedig wrth gynghori cynghorwyr. Bu'n gadarn ac yn gyson yn ei gyngor i gynghorwyr i ystyried yr egwyddor na ddylai'r sawl y mae eu hymddygiad yn methu â chyrraedd y safon uchel ddisgwyliedig, o leiaf dros y byrdymor, chwarae unrhyw rôl amlwg o fewn unrhyw weinyddiaeth newydd.

52. Nid yw'r gynghrair sydd, ar adeg llunio'r adroddiad hwn, yn parhau i ffurfio'r weinyddiaeth sydd mewn grym yn y Cyngor yn debygol o oroesi ar ei ffurf bresennol. Roedd yn rhifyddol wan o'r cychwyn ac mae pob un o'i arweinwyr grŵp wedi bod yn rhan o drafodaethau dros yr wythnosau diwethaf o ran sut y gellir atgyfnerthu'r gynghrair, neu ei disodli gan gynghrair arall. Fodd bynnag, mae pob cynnig hyd yma wedi methu. Mae rhai cynigion wedi methu am fod y trafodaethau wedi canolbwyntio'n ormodol ar bwy fyddai'n dal y prif swyddi, yn hytrach na sut y gallai'r glymblaid ddefnyddio'r grym hwnnw. Mae eraill wedi methu oherwydd canfyddiad ymhlith aelodau na fyddai rhai cyfuniadau penodol yn dderbyniol i'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro a, drwy oblygiad, i'r Gweinidog. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi ysgrifennu at yr arweinwyr grŵp yn ddiweddar, gan egluro mai mater iddynt hwy eu hunain benderfynu arno yw p'un a yw cynghorwyr penodol yn 'dderbyniol'. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol hefyd wedi nodi'n glir mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 16 Chwefror 2011 nad oes ganddo '...unrhyw ddiddordeb o gwbl o ran pwy yw arweinydd y cyngor, na phwy sy'n ffurfio gweinyddiaeth'. Ond mae'r canfyddiad nad yw'r cynghorwyr yn gallu symud ymlaen heb gymeradwyaeth yn rhwystro cynnydd pellach. Os yw'r Cyngor am wneud cynnydd, rhaid i gynghorwyr wneud eu penderfyniadau eu hunain ar faterion o'r fath, ar sail polisïau ac egwyddorion. Yn y pen draw rhaid i aelodau leisio barn gan wrthwynebu penderfyniadau o'r fath pan fyddant yn tybio eu bod yn seiliedig ar geisio grym er mwyn cael grym.

53. Cytunwn â'r clod cyffredinol am gyfraniad y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro o ran arwain y gwelliannau angenrheidiol a'i gamau gweithredu i ddiogelu staff. Fodd bynnag, dywedodd llawer o bobl o fewn y Cyngor a'r tu allan i'r Cyngor wrthym yn ystod yr arolygiad eu bod o'r farn ei fod bellach yn rhan o'r broblem o ran sefydlu gweinyddiaeth newydd i olynu'r gynghrair. Ar y cyfan, mae digwyddiadau dechrau 2011 yn gam mawr yn ôl ar daith adfer y Cyngor. At hynny, maent wedi mynd ag amser uwch swyddogion ar adeg pan ddylent fod wedi canolbwyntio'u hymdrechion ar gyflawni'n rhaglen newid uchelgeisiol a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.

## Mae Cynllun Corfforaethol 2010-11 yn gam bras ymlaen o ran egluro cyfeiriad y Cyngor ond mae'r digwyddiadau diweddar wedi tynnu sylw pawb sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun

54. Yn yr Asesiad Corfforaethol nodwyd nad oedd y Cyngor, ers sawl blwyddyn, wedi llwyddo i bennu cyfeiriad polisi clir a chyson i lywio'i benderfyniadau. Ond, ym mis Gorffennaf 2010, mabwysiadodd a chyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2010-11.

55. Mae angen mireinio rhai agweddau ar y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2011-12. Fodd bynnag, nodwyd gennym yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol fod y cynllun yn 'ffrwyth llafur dadansoddiad cynhwysfawr o'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei wneud. Mae'n crynhoi'r elfennau sy'n weddill o Gynllun Adfer y Cyngor mewn ymateb i Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009, ei drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig, a'i flaenoriaethau mwy allblyg. Drwy gyhoeddi'r cynllun, mae'r Cyngor wedi cymryd cam bras ymlaen i wella tryloywder ei fwriadau a'i atebolrwydd am eu cyflawni.' At hynny, ymgynghorodd y Pwyllgor Gwaith â'r cyhoedd mewn cyfres o sioeau teithiol er mwyn dilysu'r pum nod strategol a ddefnyddiwyd i ddosbarthu cynigion y Cyngor.

56. Mae llunio'r Cynllun Corfforaethol yn gam mawr ymlaen i'r Cyngor. Arweiniwyd y broses hon yn effeithiol iawn gan y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro drwy ychwanegu ei ddadansoddiad ei hun o'r problemau a wynebir gan y Cyngor at yr agenda a bennwyd eisoes gan Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009. Sicrhaodd hefyd fod adnoddau ychwanegol ar gael yng nghanolfan gorfforaethol y Cyngor i nodi goblygiadau ymarferol y cynigion. Canlyniad hyn oll yw agenda uchelgeisiol ar gyfer newid a fydd, o gael ei gyflawni, yn arwain at welliant sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor a'r broses o wella'i wasanaethau. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar lwyddiant y Cyngor o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol 2010-11 yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2011.

57. Mae ansefydlogrwydd gwleidyddol megis yr hyn a welwyd ers dechrau 2011 ond yn tynnu sylw cynghorwyr a staff oddi ar y gwaith o gyflawni'r agenda hon ar gyfer newid. Yn ein barn ni, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn rhoi ei sylw llawn i gyflawni Cynllun Corfforaethol 2010-11 ac i benderfynu sut y mae angen i'r cynllun newid ar gyfer 2011-12.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau bras i ymdrin â materion corfforaethol mewn ffordd fwy cyson, ond nid yw'r newidiadau wedi'u hymgorffori hyd yma

58. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi rhoi arweiniad cadarn ac effeithiol i uwch reolwyr ac wedi cyflwyno llawer o welliannau yr oedd eu hangen yn fawr i drefniadau corfforaethol. Yn benodol, mae wedi ailstrwythuro Adran y Rheolwr Gyfarwyddwr, gan ychwanegu at ei gallu i arwain o ran materion corfforaethol. Gwnaed cynnydd da ar y cyfan i ddechrau sicrhau dull cyson ar draws y Cyngor o ran materion megis cynllunio busnes, rheoli prosiectau a rhaglenni a rheoli perfformiad. Cynhaliwyd adolygiadau allanol, neu bwriedir eu cynnal ar gyfer gwasanaethau corfforaethol megis Adnoddau Dynol, Cyllid a TGCh. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gwelliannau hyn yn 'waith sy'n mynd rhagddo' a bod angen gwneud mwy o waith i ymgorffori newid a mynd i'r afael â materion pwysig megis gwerthuso swyddi a statws sengl, sef materion a ddiystyrwyd yn y gorffennol.

59. Drwy roi mwy o amlygrwydd i rolau penaethiaid gwasanaethau, mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro hefyd wedi dechrau galluogi uwch reolwyr i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar faterion strategol a chorfforaethol tra bod penaethiaid gwasanaethau yn cymryd mwy o gyfrifoldeb ac atebolrwydd am faterion gweithredol.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella ei fframwaith atebolrwydd, ond dengys digwyddiadau diweddar nad yw'r camau hyn wedi newid y diwylliant sylfaenol

60. Cafwyd nifer o newidiadau ers 2009 gyda'r nod o wella fframwaith atebolrwydd y Cyngor. Mae'r newidiadau yn effeithio ar briod rolau cynghorwyr a rheolwyr yn ogystal â'r rhyngweithio rhyngddynt. Fodd bynnag, mae newid o ran diwylliant ac ymddygiad yn cymryd amser, a phrin yw'r gwelliannau posibl hyn sydd wedi'u hymgorffori'n ddigonol eto i sicrhau eu bod yn gynaliadwy. Dengys y digwyddiadau diweddar fod y newidiadau wedi methu â mynd i'r afael â diwylliant sylfaenol y Cyngor.

61. Mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro ei bwyllgorau craffu fel bod rolau pob pwyllgor cryn dipyn yn gliriach nag o'r blaen. Mae mwy o gefnogaeth gan swyddogion bellach ar gael i'r pwyllgorau i gefnogi eu rhaglenni gwaith sy'n datblygu. Mae mwy o waith i'w wneud cyn i'r pwyllgorau craffu allu dwyn y Pwyllgor Gwaith i gyfrif yn effeithiol. Gwelwyd ôl diffyg paratoi mewn rhai cyfarfodydd o hyd, ac o ganlyniad mae swyddogion a chynghorwyr yn treulio gormod o amser heb ddod i unrhyw benderfyniad. Fodd bynnag, ceir arwyddion calonogol mewn rhai pwyllgorau fod gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau o'r meysydd pwnc sy'n destun craffu yn datblygu, gan eu galluogi i ofyn cwestiynau mwy treiddgar yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau. Mae'r Bwrdd Adfer a CLlLC wedi rhoi cymorth da o ran datblygu'r swyddogaeth graffu.

62. Er mwyn gwella atebolrwydd staff, mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi cyflwyno'r cysyniad o 'Reolwr Ynys Môn'. Y bwriad yw y dylai rheolwyr ar bob lefel fod yn fwy atebol nag yn y gorffennol am reoli perfformiad, cyllid a staff. Mae'r gwaith hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir a dylai barhau.

63. Yn y gorffennol, mae rhai cynghorwyr wedi ymwneud yn rhy agos â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau gwahanu dyletswyddau yn gliriach ac yn fwy priodol rhwng swyddogion a chynghorwyr fel nad yw cynghorwyr, er enghraifft, bellach yn chwarae unrhyw rôl o ran penodi staff heblaw ar lefel uwch. Ond clywsom yn ystod yr arolygiad, er gwaethaf hyfforddiant a datblygu, mae nifer fach o gynghorwyr yn parhau i geisio dylanwadu ar faterion megis dyrannu tai, sef mater na ddylent gymryd unrhyw ran ynddo.

## Nid yw'r camau cadarnhaol a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion 2009 wedi atal problemau'r gorffennol rhag codi eto

64. Rydym wedi nodi'r saith argymhelliad o Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 yn Atodiad 1. Ein barn yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol oedd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â'r argymhellion hyn, ond bydd yn cymryd amser i weithredu rhai o'r cynlluniau ar draws y Cyngor mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw problemau'r gorffennol yn codi eto.

65. Mae digwyddiadau ddechrau 2011, yn enwedig, yn awgrymu, er gwaethaf y camau a gymerwyd gan y Cyngor i hybu gwelliant, bod rhai o broblemau'r gorffennol yn parhau o hyd. Yn benodol, er gwaethaf ymdrechion y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, nid yw'r ddisgyblaeth grŵp gadarnach sy'n ofynnol yn Argymhelliad 1 i'w gweld. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn wynebu diffyg ymddiriedaeth rhwng staff ac aelodau etholedig, ac effaith andwyol ar forâl staff a gallu'r Cyngor i weithio ag hygrededd gyda'i bartneriaid.

66. Mae ceisio grym er mwyn cael grym, neu'r manteision a ddaw yn ei sgîl i unigolion, eu cefnogwyr a'r wardiau a gynrychiolir ganddynt wedi ailymddangos. Rydym o'r farn fod diffyg amrywiaeth yn y Cyngor, yn enwedig o ran ei broffil oedran a'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn hybu'r diwylliant hwn, sydd yn ei dro yn atal pobl eraill rhag sefyll mewn etholiad. Nodwyd gennym yn Asesiad Corfforaethol 2010 y dylai'r Cyngor hybu adnewyddu democrataidd drwy ddatblygu 'strategaeth......i hysbysu dinasyddion am rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr modern, ac wrth wneud hynny, hybu mwy o amrywiaeth o fewn y Cyngor'. Mae'r Cyngor eisoes wedi clustnodi cyllideb fach ar gyfer y gwaith hwn, ond rydym o'r farn y bydd angen cymorth allanol ar gyfer y gwaith hwn.

67. Adolygwyd y trefniadau etholiadol yn Ynys Môn gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, a gwnaethant gynigion ar gyfer newid yn ystod hydref 2010. Mae'r cynigion, a gafodd gefnogaeth amodol gan y Cyngor, yn galw am leihau nifer y cynghorwyr o 40 i 36 a chyflwyno wardiau aml-aelod mewn rhannau o'r ynys. Credwn fod gan y cynigion hyn, ynghyd a chymorth allanol i annog pobl newydd i sefyll am etholiad, y potensial i leihau natur blwyfol gwleidyddiaeth ar yr ynys.

68. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â'r angen penodol am adnewyddu democrataidd ar Ynys Môn, credwn y dylid cynnal adolygiad pellach i ystyried y cwmpas ar gyfer mwy o wardiau aml-aelod a/neu leihad pellach yn nifer y cynghorwyr. Dylid gweithredu unrhyw newidiadau o'r fath cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf ar yr ynys. Felly gall fod yn ofynnol i'r Gweinidog ystyried defnyddio pwerau o dan adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i ohirio'r etholiadau tan 2013.

69. Yn ystod yr arolygiad, clywsom ddadlau o blaid model llywodraethu, nas gweithredwyd yng Nghymru, lle mae Maer a Etholir yn Uniongyrchol yn arwain y Cyngor ac yn dewis ei Bwyllgor Gwaith. Rydym yn cydnabod bod risgiau'n gysylltiedig â'r model hwn, ond mae'r manteision posibl fel a ganlyn:

- byddai'r Maer yn rhoi arweiniad sefydlog dros dymor o bedair blynedd;
- byddai'r Maer wedi'i ethol gan holl drigolion Ynys Môn, ac yn atebol iddynt, yn hytrach nag un ward benodol.

70. Nid oes unrhyw feiri a etholwyd yn uniongyrchol yng Nghymru, er bod un awdurdod lleol wedi cynnal refferendwm mewn ymateb i ddeiseb, lle trechwyd y cynnig am faer etholedig. Fodd bynnag, mae'r model wedi gweithio'n dda mewn nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog[3] wedi nodi eu potensial:

‘Mayors can provide a focus for public engagement and bringing partners together. The fact that mayors have the unique mandate of being a single individual elected by citizens from across the locality as a whole reinforces their legitimacy and can enhance their ability to act as a leader of the entire community, to bring partners together and to shape services and outcomes well beyond the immediate responsibilities of the council.’

[3] Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog (2005), *Vibrant Local Leadership*, Llundain, ODPM: tud 14

## Er gwaethaf gwaith gwerthfawr gan y Bwrdd Adfer a'r Rheolwr Gyfarwyddwr dros Dro, aflwyddiannus fu’r ymyrraeth yn y pen draw ac mae angen ymyrraeth gadarnach i wella'r rhagolygon o ran adfer

71. Mae’r ymyrraeth gan Weinidogion Cymru yn dilyn Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 wedi arwain at lawer o newidiadau a all fod yn gadarnhaol, yn ogystal â chyfleoedd dysgu i staff a chynghorwyr. Dywedodd uwch reolwyr profiadol a holwyd gennym yn ystod yr arolygiad eu bod wedi dysgu cryn dipyn o ymagwedd y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro. Mae'r Bwrdd Adfer, y mae ei aelodau wedi cynnig amrywiaeth o brofiad ac arbenigedd i'r Cyngor, wedi cynnig dealltwriaeth werthfawr, yn ogystal â monitro cynnydd y Cyngor a chyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Gweinidog. Mae ei aelodau hefyd wedi cynnig cefnogaeth a datblygiadau gwerthfawr mewn meysydd megis craffu, er bod ei effaith hyd yma wedi'i chyfyngu i graffu ar feysydd gwasanaeth penodol. Fel rhan o'r ymyrraeth, mae CLlLC hefyd wedi darparu hyfforddiant a datblygu helaeth i gynghorwyr. Roedd lefelau presenoldeb yn y sesiynau hyn yn amrywio; ar gyfartaledd, dim ond 63 y cant o gynghorwyr a wahoddwyd i bob sesiwn fu'n bresennol.

72. Bwriad y gwaith datblygu hwn oedd gwneud y Cyngor yn esiampl o ran ei drefniadau llywodraethu corfforaethol. Aflwyddiannus fu'r ymyrraeth yn hyn o beth yn y pen draw, ond rydym yn hyderus fod llawer o gynghorwyr a staff wedi cael budd o'r profiad.

73. Hon oedd yr ymyrraeth gyntaf o'i math yng Nghymru ac fe gostiodd lawer i’r Cyngor, arian y gellid bod wedi'i wario fel arall ar wasanaethau yn Ynys Môn. Felly mae'n bwysig bod gwersi'n cael eu dysgu o'r ymarfer hwn.

74. Ar y cychwyn, cafodd y Bwrdd Adfer gylch gwaith manwl gan Lywodraeth y Cynulliad. Roedd cylch gwaith y bwrdd yn cynnwys cynghori'r Gweinidog a'r Cyngor, ond dim pwerau i gyfarwyddo'r Cyngor na'i Reolwr Gyfarwyddwr Dros Dro.

75. I'r gwrthwyneb, nid oedd gan y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, a benodwyd gan y Cyngor o dan gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru, unrhyw 'ddisgrifiad swydd' penodol. Mae ganddo statws sylwebydd ar y Bwrdd Adfer ac mae wedi cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd. Mae'r Gweinidog hefyd yn ei amddiffyn rhag cael ei ddiswyddo gan y Cyngor, ac mae wedi manteisio ar hynny'n fwyfwy yn ei ymdrechion i ddylanwadu ar drefniadau rheoli gwleidyddol y Cyngor i gyfeiriad a oedd yn ceisio ymgorffori llywodraethu da. Ond, oherwydd diffyg canllawiau o ran graddau cylch gwaith y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, ni fu'n glir a fu ei weithredoedd yn gyson â barn y Gweinidog ai peidio. Mae'r diffyg eglurder hwn wedi arwain at ddyfalu ymhlith cynghorwyr o ran canlyniadau posibl eu gweithredoedd eu hunain.

76. Felly, o edrych yn ôl, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth y Cynulliad fod wedi pennu terfynau rôl y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, a hynny o fewn cyd-destun diffiniad cliriach o'i rôl mewn perthynas â'r Bwrdd Adfer.

77. Ein casgliad yw na fu'r ymyrraeth yn llwyddiannus hyd yma o ran datrys gwendidau llywodraethu corfforaethol sylfaenol y Cyngor. Er mwyn gwella rhagolygon y Cyngor o wella, credwn y dylai Gweinidogion barhau i ymyrryd yn y broses o redeg y Cyngor, a dylent atgyfnerthu telerau eu hymyrraeth fel y nodwyd yn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.

78. Mae'r Bwrdd Adfer wedi chwarae rôl bwysig o ran goruchwylio'r broses o weithredu argymhellion adroddiad 2009, ond credwn bellach bod angen ymyrryd yn fwy uniongyrchol yn y broses o redeg y Cyngor ac y dylai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd y dylai swyddogaethau gweithredol yr awdurdod gael eu harfer gan gomisiynwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru. Dylai'r comisiynwyr ryddhau rhai pwerau Gweithredol i'r Cyngor yn ystod eu cyfnod yn y swydd, os yw'r Gweinidog o'r farn fod hyn yn briodol.

79. Rydym o'r farn y dylai'r Gweinidog gadw'r pŵer i benodi Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro. Fodd bynnag, credwn fod angen mwy o eglurder o ran cylch gorchwyl y swydd honno, ac o ran diffinio atebolrwydd deiliad y swydd.

80. Rydym hefyd o'r farn y dylai'r comisiynwyr arfer y swyddogaethau sy'n ymwneud â phenodi swyddogion statudol eraill y Cyngor, pe bai'r swyddi hyn yn dod yn wag yn ystod cyfnod yr ymyrraeth.

81. Dylai'r Cyngor gael cymorth i weithredu cynigion ar gyfer adnewyddu democrataidd gyda'r nod o ddenu aelodau newydd a sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith aelodau'r Cyngor. Adolygwyd y trefniadau etholiadol yn Ynys Môn gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, a gwnaethant gynigion ar gyfer newid yn ystod 2010. Mae'r cynigion, a gafodd gefnogaeth amodol gan y Cyngor, yn galw am leihau nifer y cynghorwyr o 40 i 36 a chyflwyno wardiau aml-aelod mewn rhannau o Ynys Môn. Rydym o'r farn fod gwerth i'r cynigion hyn. Felly rydym o'r farn y dylai Gweinidogion ofyn i'r Comisiwn Ffiniau adolygu ei gynigion er mwyn sicrhau bod y newidiadau a gynigiwyd yn wreiddiol yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r angen am adnewyddu democrataidd yn Ynys Môn, a chyflwyno'r newidiadau, wedi'u diweddaru fel sy'n ofynnol, mewn pryd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2012. Os nad yw'n bosibl cwblhau a gweithredu'r adolygiad hwn erbyn hynny, dylai'r Gweinidogion ystyried defnyddio pwerau o dan adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i ohirio'r etholiadau tan 2013.

82. Ochr yn ochr â'r mesurau hynny, gallai'r Gweinidog ddymuno ystyried cyfarwyddo'r Cyngor i gynnal refferendwm ar newid ei fodel llywodraethu o'r model Arweinydd a Chabinet presennol i fodel Maer a Etholir yn Uniongyrchol a Chabinet. Er bod model o'r fath yn cynnwys rhywfaint o risg, dylai roi arweinyddiaeth sefydlog, a Maer gyda mandad gan Ynys Môn gyfan. At hynny, byddai'r Maer yn dewis ei Bwyllgor Gweithredol ei hun, gan felly osgoi'r ymgiprys am rym sy'n digwydd rhwng grwpiau o gynghorwyr ar hyn o bryd.

## Atodiad 1

# Canfyddiadau ac argymhellion Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn hanes hir o beidio â chael ei redeg yn briodol, o'i sefydlu yn 1996 hyd heddiw. Mae hyn wedi cael effaith andwyol arno o ran cyflawni ei swyddogaethau ac yn ei adael mewn sefyllfa wan i wynebu heriau'r dyfodol.

## Cynnwys

**Crynodeb ac Argymhellion**

**Adroddiad Manwl**

Mae hunanreoleiddio gwael o ran ymddygiad amhriodol a gwrthdaro wedi cael effaith andwyol ac yn gwastraffu adnoddau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn aneffeithiol o ran ymdrin ag achosion o wrthdaro ac ymddygiad amhriodol

Mae'r Cyngor wedi methu ag ymateb i nifer o adolygiadau allanol blaenorol sydd wedi amlygu achosion o wrthdaro ac ymddygiad amhriodol

Mae'r Cyngor yn ymddwyn yn adweithiol o ran ymdrin ag achosion o wrthdaro ac ymddygiad amhriodol

Mae strwythurau gwan grwpiau gwleidyddol yn cyfrannu at ddiffyg rheolaeth a sancsiwn

Mae'r hanes o wrthdaro mewnol ac ymddygiad amhriodol wedi cael effaith andwyol

Mae ymdrin â gwrthdaro ac ymddygiad amhriodol yn mynd â chryn dipyn o amser ac ymdrech

Mae enw da'r Cyngor wedi cael ei niweidio'n sylweddol

Mae'r gwrthdaro wedi arwain at rwyg rhwng yr arweinwyr gwleidyddol a'r rheolwyr

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa wael i fynd i'r afael â heriau yn y dyfodol, gan gynnwys ei ddyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus, oherwydd diffyg cyfeiriad, ac arweinyddiaeth ac atebolrwydd corfforaethol, er bod nodweddion da ym mherfformiad llawer o wasanaethau

Tra bod nifer o nodweddion da i'w gweld ym mherfformiad llawer o wasanaethau, nid oes gan y Cyngor gyfeiriad clir

Ceir nodweddion da ym mherfformiad llawer o wasanaethau

| |
|---|
| Nid oes gan y Cyngor bolisïau na blaenoriaethau a ddiffiniwyd yn glir |
| Ni weithredir y cysyniad o arweinyddiaeth gymunedol, ac nid oes dealltwriaeth lawn o'r cysyniad |
| Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn rhoi peth o arweiniad effeithiol i feysydd gwasanaeth ond mae'n methu â rhoi arweiniad angenrheidiol ar faterion corfforaethol |
| Mae Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn rhoi peth o arweiniad effeithiol i'w meysydd gwasanaeth |
| Nid oes cynnydd digonol wedi'i wneud o ran nifer llawer o faterion corfforaethol a cheir diffyg capasiti o ran gwasanaethau corfforaethol |
| Nid oes gan y Cyngor fframwaith atebolrwydd effeithiol |
| Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn aneffeithiol |
| Mae pwyllgorau craffu a throsolwg yn aneffeithiol ac mae rôl sicrwydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio yn gyfyngedig |
| Nid oes dealltwriaeth glir o rolau na chyfrifoldebau |

## Argymhellion

A1 Mae’r trefniadau gwleidyddol cyfredol yn cyfrannu at y ffaith nad yw’r Cyngor yn cael ei redeg yn briodol. I gefnogi gwell prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, a mynd i’r afael â’r broblem gwrthdaro sylfaenol, dylai’r Cyngor, o fewn 12 mis o gyhoeddi’r adroddiad hwn, ddiwygio ei drefniadau gwleidyddol i hyrwyddo:

- penderfyniad clir o ran ei flaenoriaethau a’i gyfeiriad strategol;
- lleihau effaith andwyol gwrthdaro rhwng aelodau drwy waith monitro a gorfodi safonau ymddygiad rhagweithiol a disgyblaeth grŵp lymach;
- craffu mwy trylwyr yn seiliedig ar Bwyllgorau sy’n annibynnol ar y Pwyllgor Gwaith; a
- llifau gwybodaeth gwell.

A2 Mae’r Cyngor yn wynebu’r broblem frys o adfer ymddiriedaeth rhwng rhai aelodau a rhai uwch swyddogion. I gychwyn y broses hon, mae angen i’r Cyngor ddatrys mater Graigwen[4] a materion sy’n ymwneud â’r Llythyr Blynyddol a gyhoeddwyd gan y Rheolwr Cydberthnasau ym mis Ionawr 2009. Er mwyn hwyluso’r gwaith o ddatrys y materion hyn ac adfer ymddiriedaeth a pharch ar y naill ochr a’r llall dylai Arweinydd y Cyngor a’r Rheolwr Gyfarwyddwr Interim adfer cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol rhwng y Tîm Rheoli Corfforaethol a’r Pwyllgor Gwaith ar unwaith.

[4] Mae Graigwen yn eiddo a brynwyd gan y Cyngor mewn arwerthiant yn 2007.

| | |
|---|---|
| A3 | Mae aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn rhoi peth arweiniad effeithiol i feysydd gwasanaeth ond yn methu â rhoi'r arweinyddiaeth gorfforaethol angenrheidiol[5]. Dylai'r Cyngor, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, wneud cynigion o ran cyfansoddiad a strwythur uwch reolwyr i adfer y diffyg hwn. |
| A4 | Mae newidiadau diweddar i'r prosesau gwneud penderfyniadau wedi cyfrannu at wella penderfyniadau ar gynllunio. Eto, mae penderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio yn parhau i fod yn niweidiol i enw da'r Cyngor ac yn tanseilio hyder y cyhoedd. Dylai'r Cyngor, o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad hwn, wneud cynigion i gynyddu tryloywder ac ansawdd y broses gwneud penderfyniadau. |
| A5 | Mae llywodraethu da a chyflawni rôl arweinyddiaeth gymunedol yn gofyn am ymgysylltu â dinasyddion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddull cydgysylltiedig o gadarnhau anghenion cymuned yr ynys drwy ymgysylltu â dinasyddion. Dylai'r Cyngor wneud cynigion i wella'r broses o ymgysylltu â'r cyhoedd erbyn 31 Rhagfyr 2009. |
| A6 | Mae ymateb yn effeithiol i gwynion yn elfen hanfodol o ddwyn y Cyngor yn atebol. Mae gan y Cyngor hanes gwael o ran ymateb i gwynion nad oes ganddo ddyletswydd statudol i ymateb iddynt. Mae hyn yn bryder a rennir gan y cyhoedd, swyddogion a chynghorwyr. Dylai'r Cyngor, erbyn 31 Mawrth 2010, wneud cynigion i wella ei broses ar gyfer ymateb i gwynion yn seiliedig ar werthuso'r cynllun peilot a ddechreuwyd ar 1 Mehefin 2009. |
| A7 | Mae gwasanaethau corfforaethol cryf[6] gyda chapasiti digonol i roi'r lefel angenrheidiol o gymorth i aelodau a swyddogion yn hanfodol i hyrwyddo effeithlonrwydd ac i wella'r broses lywodraethu. Dylai'r Cyngor, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, ddatblygu cynigion i wella gwasanaethau corfforaethol. |

[5] Gellir diffinio arweinyddiaeth gorfforaethol fel rhoi cyfeiriad i staff yn unol â blaenoriaethau'r Pwyllgor Gwaith. Mae'n golygu cydweithio i bennu'r cyfeiriad ar gyfer y Cyngor cyfan, wrth arfer pwerau a swyddogaethau'r Cyngor, a sicrhau bod y Cyngor cyfan yn symud i'r cyfeiriad hwnnw.

[6] Mae gwasanaethau corfforaethol yn cyfeirio at y gwasanaethau hynny megis Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Polisi a Pherfformiad sy'n cefnogi'r Cyngor cyfan wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol i'r cyhoedd.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk